



GIG
CYMRU
NHS
WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Gwersi yn sgil Ymddiried mewn Gofal



UN FLWYDDYN AR ÔL

Rhagair gan y Dr Ruth Hussey a'r Athro Jean White

Dros y deuddeng mis diwethaf mae'r Grŵp Llywio wedi bod yn ystyried yr Adroddiad Ymddiried mewn Gofal a'i argymhellion, yn ogystal â'r gwersi o'r ymweliadau dirybudd. Roedd y Grŵp Llywio'n awyddus i sicrhau bod y gwaith a wneir i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn digwydd ar lefel Cymru gyfan i wneud yn siŵr bod newid yn cael ei gyflawni o fewn y system yn ei chyfanrwydd.

Mae cryn dipyn o waith da wedi cael ei wneud ond yn awr mae'n rhaid inni gynnal y momentwm hwn a sbarduno gwelliannau pellach i sicrhau bod y gofal gorau un yn cael ei ddarparu ar gyfer ein holl bobl fregus a hŷn, pryd bynnag y mae angen y gofal hwnnw a ble bynnag y mae'n cael ei ddarparu. Mae'r Grŵp Llywio'n gwneud rhai argymhellion i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Gwersi yn sgîl Ymddiried mewn Gofal – blwyddyn yn ddiweddarach

Adroddiad gan y Grŵp Llywio

Cefndir

Comisiynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adolygiad o'r gofal a ddarperir ar gyfer pobl hŷn yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot tuag at ddiwedd 2013. Fe wnaeth y Gweinidog hyn yn dilyn pryderon sylweddol a fynegwyd wrtho ynghylch y safonau gofal gwael yn y ddau ysbyty. Fe ymgwymerodd yr Athro June Andrews, cyfarwyddwr y Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia ym Mhrifysgol Stirling a Mark Butler, cyfarwyddwr The People Organisation, â'r adolygiad hwn rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Ebrill 2014. Cyhoeddodd y Gweinidog eu hadroddiad¹ yn llawn ar 13 Mai 2014, ac fe'i gwnaeth yn glir bod hwn yn adroddiad ar gyfer Cymru gyfan.





Cododd yr adroddiad Ymddiried mewn Gofal nifer o bryderon ynghylch ansawdd y gofal a diogelwch cleifion ar rai o'r wardiau yn y ddau ysbyty ac ynghylch rhai prosesau clinigol a rheoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM). Fe wnaed cyfanswm o 18 o argymhellion, yr oedd 14 ohonynt yn rhai ar gyfer BIPABM a phedwar yn rhai ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Ymateb Cymru Gyfan

Wrth gyhoeddi'r adroddiad fe wnaeth y Gweinidog hi'n glir ei fod yn disgwyl i bob sefydliad o fewn GIG Cymru ymateb a deall oddi wrtho. Fe ysgrifennodd at holl sefydliadau'r GIG i ystyried argymhellion yr adroddiad ac fe roddodd bedair wythnos iddynt adnabod unrhyw welliannau yr oedd eu hangen ac i sicrhau nad oedd pryderon systemig ynghylch gofal yn bresennol mewn rhannau eraill o Gymru. Mae eu hymatebion wedi cael eu cyhoeddi² ar eu gwefannau unigol. Hefyd, rhoddodd y Gweinidog orchymyn i gynnal rhaglen o archwiliadau annibynnol dirybudd ar wardiau meddygol mewn ysbytai aciwt sy'n gofalu am bobl hŷn. Diben yr archwiliadau dirybudd hyn oedd profi safonau gofal mewn pedwar maes allweddol a nodir yn yr adroddiad Ymddiried mewn Gofal fel meysydd sy'n achos pryder arbennig:

¹ <http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/care/?lang=cy>

² <http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/care/?lang=cy>

-  The use of sedation
-  Giving patients their medication
-  Continence care (toileting)
-  Hydration (drinking)

Mae canfyddiadau'r archwiliadau dirybudd hyn wedi cael eu cyhoeddi³ ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ers hynny mae rhaglen bellach o archwiliadau dirybudd mewn wardiau iechyd meddwl pobl hŷn⁴ wedi cael eu cynnal. Mae'r canfyddiadau wedi cael eu cyhoeddi ac mae gwaith yn mynd rhagddo i roi'r gwersi a ddysgwyd ar waith. Cyhoeddwyd adroddiad ar wahân ar yr archwiliadau hyn. Roedd yn arbennig o bwysig ystyried yr amgylchedd gofal hwn yng ngoleuni'r methiannau difrifol mewn gofal a ddaeth i'r amlwg yn Uned Tawel Fan yng ngogledd Cymru. Gweler y ddolen:

Mae'r rhaglenni hyn o archwiliadau dirybudd wedi darparu gwersi gwerthfawr ar gyfer y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl hŷn i ddiwallu eu hanghenion clinigol a'u hanghenion o ran lles. Mae cryn dipyn o waith y grŵp llywio wedi canolbwyntio ar symud y gwersi hynny yn eu blaen ar lefel y system.

Y Grŵp Llywio Ymddiried mewn Gofal

Cafodd y Grŵp Llywio Ymddiried mewn Gofal ei sefydlu gan y Gweinidog i gyfarwyddo a llywio'r broses o weithredu argymhellion yr adolygiad, yn ogystal â chanfyddiadau'r rhaglen o archwiliadau dirybudd i sicrhau dysgu a gwella ar lefel Cymru gyfan. Mae cylch gorchwyl y Grŵp Llywio, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y prif swyddog meddygol a'r prif swyddog nyrsio, yn atodiad 1.

Cyfarfu'r grŵp llywio Ymddiried mewn Gofal naw gwaith rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Mehefin 2015. Mae cofnodion pob cyfarfod yn cael eu cyhoeddi⁵. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gwaith y grŵp, y camau gweithredu a gymerwyd hyd yma ac mae'n amlygu rhai meysydd ar gyfer gweithredu pellach ar sail Cymru gyfan.

Dylid nodi, er bod y grŵp wedi cynnal trosolwg o'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan BIPABM mewn ymateb i'w sefydliadau penodol, bod cyfarfodydd chwarterol ar wahân wedi cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd fel rhan o drefniadau i fonitro prosesau cyflawni. Felly nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r 14 argymhelliad hwnnw. Yr adolygiad dilynol annibynnol fydd yn asesu ac yn penderfynu a oes cynnydd digonol wedi cael ei wneud.

³ <http://gov.wales/topics/health/nhswales/spot-checks/?lang=cy>

⁴ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150618reportcy.pdf>

⁵ <http://gov.wales/topics/health/nhswales/spot-checks/?lang=cy>

Dull gweithredu'r Grŵp Llywio

Y man cychwyn ar gyfer y gwaith oedd yr argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn ogystal â mynd ati ar yr un pryd i ystyried y canfyddiadau ehangach a oedd yn dod i'r amlwg o'r rhaglen o archwiliadau dirybudd a oedd yn mynd rhagddynt erbyn hynny.

Roedd y Grŵp yn ymwybodol o waith arall a oedd yn mynd rhagddo ac yr oedd cyswllt eglur rhyngddo a'r materion yr oedd angen eu hystyried. Mae adolygiad Keith Evans o'r modd yr ymdrinnir â phryderon (cwynion) yn GIG Cymru – 'Defnyddio Cwynion yn Rhodd', yn enghraifft arbennig. Mae rhannu gwersi a ddysgwyd mewn ffordd integredig yn ofyniad hanfodol o fewn y GIG ond hefyd rhwng y GIG a'r sector Gofal Cymdeithasol. Roeddem felly'n awyddus i sicrhau bod ein gwaith yn gallu cael ei rannu'n fwy eang, gan oleuo'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn fforymau eraill megis y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal. Roedd aelodau'r Grŵp hefyd yn ymwybodol o *Adolygiad Flynn* a gyhoeddwyd fel yr oedd y gwaith yn tynnu at ei derfyn.

Er mwyn cael dealltwriaeth fanylach am y materion a oedd yn dod i'r amlwg fe siaradodd y Grŵp gydag ystod o bobl neu fe geisiodd gyngor ganddynt wrth i'w waith fynd rhagddo. Roedd hyn yn cynnwys clywed yn uniongyrchol gan staff rheng-flaen y GIG, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Athro Fonesig Finlay o Landaf, athro mewn meddygaeth liniarol. Trwy'r trafodaethau hyn datblygodd rhai themâu pwysig. Fe helpodd hyn i gyfarwyddo gwaith y grŵp llywio i sicrhau ffocws ar ganlyn arni â nifer fach o gamau gweithredu allweddol yr oeddem ni'n ystyried bod ganddynt y potensial i gyflawni newid o fewn y system yn ei chyfanrwydd a gwelliant cynaliadwy. Yn ei holl waith mae'r Grŵp wedi cael ei daro'n arbennig gan yr angen i ddileu rhwystrau a chymhlethdod diangen i'w gwneud yn haws i staff wneud eu gorau un dros eu cleifion.

Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio'r hyn a gyflawnwyd.

Cynnydd gyda'r Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 15 - *Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymgyrch strategol i gryfhau dealltwriaeth y cyhoedd a'r proffesiynau fod rhoi dŵr a bwyd i gleifion yn rheolaidd yr un mor bwysig â golchi dwylo o ran hybu lles pobl hŷn yn yr ysbyty.*

Lansiwyd 'Dŵr – Iechyd Da!' yn raddol ar 26 Mehefin 2015 a bydd yn cael ei gyflwyno'n llawn ledled Cymru ym mis Ionawr 2016.

Cafodd hydradu ei amlygu fel maes a oedd yn achos pryder mawr yn yr adroddiad *Ymddiried mewn Gofal*. Fe wnaeth trafodaethau dilynol gyda'r Athro Andrews a thystiolaeth o'r archwiliadau dirybudd hi'n bosibl pennu ffocws yr ymgyrch. Cafodd y gwasanaeth Gwella 1,000 o Fywydau ei gomisiynu i'w ddatblygu:

Mae'r ymgyrch yn adeiladu ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn Ysbyty'r Tywysog Charles o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Cafodd eu menter 'Yfwch Ddiferyn' ei chanmol fel arfer da a adnabuwyd yn ystod proses yr archwiliadau dirybudd.

Mae'r ymgyrch *Dŵr – Iechyd Da!*:

- wedi'i fwriadu ar gyfer teuluoedd cleifion a staff y GIG, yn ogystal â chleifion eu hunain
- yn pwysleisio pwysigrwydd hylifau'n gyffredinol – ar ffurf diodydd poeth, ffrwythau, cawl, llaeth, diodydd ysgafn heb siwgr yn ogystal â dŵr yfed.
- yn canolbwyntio ar newid ymddygiadau cleifion, eu hymwelwyr a staff. Mae'r adran newid ymddygiad ym Mhrifysgol Bangor yn cefnogi'r agwedd hon ar y gwaith, tra bydd Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd yn rhoi cymorth i werthuso'r ymgyrch.
- wedi cael ei dreialu mewn nifer fach o ysbytai yn ystod yr haf a thros y misoedd nesaf bydd yn cael ei gyflwyno ym mhob ysbyty yng Nghymru i ddechrau, gyda golwg ar ei ymestyn i leoliadau eraill wedyn, gan gynnwys cartrefi gofal.

Argymhelliad 16 – *Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd craffu ar iechyd a'r prosesau adrodd am ansawdd sy'n gysylltiedig â gofalu am bobl hŷn fregus.*

Bydd y Safonau Iechyd a Gofal newydd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015 yn sail i broses gyson o ran adrodd a chraffu

Roedd hyn yn benllanw ar broses ymgynghori helaeth i ddiweddarau'r fframwaith safonau blaenorol a'i gysoni â'r safonau hanfodion gofal mewn un fframwaith trosfwaol. Mae'r safonau'n darparu fframwaith ar gyfer y ffordd y dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu, eu rheoli a'u darparu o ddydd i ddydd – i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd, adnabod cryfderau ac amlygu meysydd ar gyfer gwella. Mae nifer o safonau'n arbennig o berthnasol i asesu gofal ar gyfer pobl fregus a hŷn.

Bydd y Safonau Iechyd a Gofal yn parhau i gael eu defnyddio gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i danategu ei harolygiadau ac adolygiadau. Fodd bynnag, mae disgwyl i wasanaethau iechyd ddeall a mynd ati'n weithredol i'w sicrhau eu hunain pa mor dda y maent yn cyrraedd y safonau a hynny'n barhaus.

Mae'r safonau'n gyson â'r saith thema a nodwyd yn Fframwaith Canlyniadau a Chyflawni'r GIG a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015, a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â chleifion, clinigwyr a rhanddeiliaid. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys gofal diogel, gofal effeithiol, gofal gydag urddas a gofal unigol ac mae disgwyl i'r holl sefydliadau adrodd ar gynnydd ynddynt mewn modd agored a thryloyw trwy eu cyfarfodydd bwrdd cyhoeddus a'u pwyllgorau. Yn gynyddol mae'r mesurau hyn yn canolbwyntio

ar ganlyniadau ar gyfer cleifion a dinasyddion yn hytrach na mesur prosesau. Ceir ffocws sylweddol hefyd ar asesu ac adrodd ar farn cleifion am eu profiad o ofal.

Argymhelliad 17 – *Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu BIPABM i ddatblygu dangoswrdd a chanllawiau enghreifftiol i'r Bwrdd asesu gofal pobl fregus a hŷn a hwnnw i'w fabwysiadu ar draws GIG Cymru erbyn diwedd 2014.*

Datblygodd BIPABM ddangoswrdd enghreifftiol a chyflwynodd hwn i'r grŵp llywio er mwyn iddo'i ystyried ar 30 Medi 2014.

Yng ngoleuni datblygiad y fframwaith safonau iechyd a gofal newydd fe gytunon ni nad oedd yn briodol cyhoeddi hwn i gael ei fabwysiadu dros Gymru gyfan erbyn diwedd 2014. Fodd bynnag, mae'n cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar ddull newydd o fonitro ac adrodd ar safonau gofal fel a ddisgrifir uchod. Gan adeiladu ar y dangoswrdd a ddatblygwyd gan BIPABM, mae gwaith yn tynnu at ei derfyn i gytuno ar set gyson o fesurau craidd ar draws y meysydd perthnasol y bydd disgwyl i'r holl Fyrddau adrodd arnynt fel isafswm mewn ffordd gyson-amserol. Mae'n bwysig bod y safonau hyn yn cael eu sefydlu'n gyson ledled Cymru a'u bod yn cael eu defnyddio i ddarparu proses adrodd eglur, gyson a thebyg a all gael ei deall yn rhwydd gan unrhyw un sy'n dymuno asesu ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu unrhyw le yng Nghymru. Mae'r gwaith wedi cael ei oleuo hefyd gan ddisgwyliadau a nodwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru trwy adborth y mae hi wedi'i ddarparu ar gyfer holl sefydliadau'r GIG mewn ymateb i'w datganiadau ansawdd blynyddol ar gyfer 2013/14.

Gyda'i gilydd mae'r 2 argymhelliad hwn yn gyfle i sicrhau dull cyson a thryloyw gan holl sefydliadau'r GIG i ddarparu sicrwydd ynghylch ansawdd y gofal a ddarperir ar draws yr holl wasanaethau.

Mae disgwyliad bellach y gwelir ymgysylltiad cryf â'r safonau ansawdd hyn a pherchnogaeth gref arnynt gan fyrddau yn ogystal â thystiolaeth eu bod yn defnyddio metrigau o'r fath yn sail i'w rôl sicrhau ansawdd.

Mae'r Papur Gwyrdd ar ansawdd a llywodraethu a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015 yn rhoi cyfle pellach i ymgysylltu ynghylch gwelliannau pellach.

Argymhelliad 18 – *Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn adolygiad annibynnol arall o'r ddarpariaeth i bobl hŷn o fewn blwyddyn i'r Adroddiad hwn.*

Cynhaliwyd adolygiad dilynol yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2015 gan yr Athro June Andrews a Mark Butler, awduron yr adroddiad gwreiddiol. Mae

canfyddiadau'r adolygiad dilynol hwn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Camau Gweithredu a Gwelliannau Pellach: adeiladu ar ganfyddiadau'r archwiliadau dirybudd

Profodd yr archwiliadau dirybudd cychwynnol yn ffynhonnell werthfawr ar gyfer cael sicrwydd ynghylch y gofal y mae cleifion oedrannus yn ei gael yn yr ysbytai yn ogystal ag yn ffynhonnell bwysig ar gyfer gwersi sydd wedi arwain at welliannau pellach yn y GIG. Am y rhesymau hyn cafodd y rhaglen o archwiliadau dirybudd ei hymestyn i wardiau iechyd meddwl sy'n gofalu am bobl hŷn lle ymwelwyd â 22 ward arall.

Pecyn Cymorth Archwiliadau Ansawdd

Roedd y dull a ddatblygwyd ar gyfer yr archwiliadau dirybudd yn arloesol ac yn canolbwyntio ar ddefnyddio barn glinigol i asesu'r gofal yr oedd unigolion yn ei gael mewn gwirionedd ar adeg yr ymweliad. Roedd yn gyfle i siarad gyda chleifion a'u teuluoedd am eu gofal a hefyd i gael trafodaethau gyda staff. Fe wnaeth alluogi'r adolygwyr i ganfod yr hyn a oedd yn gweithio'n dda a ble'r oedd angen gwelliannau. Os oedd unrhyw bryderon difrifol yn cael eu canfod roedd y rhain yn cael sylw ar unwaith. Cafodd y broses dderbyniad da ac fe wnaed ymrwymiad i rannu'r fethodoleg fel bod sefydliadau eu hunain yn gallu mabwysiadu'r dull, naill ai ochr yn ochr â phrosesau adolygu tebyg a oedd eisoes yn bodoli neu yn lle'r rhain.

Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ddatblygu gan y gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau. Mae'r pecyn cymorth Archwiliadau Ansawdd yn adeiladu ar y dull gwreiddiol ac mae wedi'i fwriadu i gael ei ddefnyddio gan dimau ambroffesiwn mewn unrhyw leoliad gofal i asesu a sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir ac adnabod meysydd lle mae angen gwelliannau. Mae'r dull hwn yn addas iawn ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaidd, gan gynnig cyfleoedd pellach i ddatblygu unigolion a thimau a chyfrwng ar gyfer rhannu arfer da. Mae sefydliadau'r GIG wedi cytuno hefyd i rannu eu pecynnau cymorth a dulliau unigol i ddatblygu'r pecyn cymorth a dulliau ategol ymhellach i adnabod arfer gorau ledled Cymru, gan ei gwneud yn bosibl mabwysiadu dull cyson.

Argymhelliad 1

Dylai holl sefydliadau'r GIG gyfrannu i waith i ddatblygu'r pecyn cymorth Archwiliadau Ansawdd ac adolygiadau gan gymheiriaid ymhellach a chynnwys defnydd o'r rhain yn eu systemau gwella a sicrhau ansawdd

Gwelliannau o ran Rheoli Meddyginiaethau

Roedd gweinyddu, cofnodi a rheoli meddyginiaethau yn un o themâu'r adroddiad *Ymddiried mewn Gofal* ac yn un o'r themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro mewn ymweliadau dirybudd. Roedd y Grŵp Llywio'n cytuno bod hwn yn faes lle'r oedd angen ffocws sylweddol. Cafodd gweithgor dan gadeiryddiaeth y prif swyddog fferyllol ei sefydlu i ystyried pob agwedd ar weinyddu, cofnodi, adolygu a storio meddyginiaethau (MARRS) yr oedd angen rhoi sylw iddynt.

Mae canlyniadau pwysig y gwaith hwn wedi arwain at:

- ddatblygu polisi gweinyddu, cofnodi, adolygu a storio meddyginiaethau ar gyfer Cymru i ddarparu fframwaith trosfwaol ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd sy'n gyfrifol am ddatblygu'r gweithdrefnau tanategol. Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth sicrhau:
 - bod prosesau ac arweiniad wedi'u sefydlu i warantu bod prosesau gweinyddu, cofnodi, adolygu a storio meddyginiaethau yn ddiogel
 - bod yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweinyddu meddyginiaethau wedi cael addysg briodol, eu bod wedi cael eu hasesu i gadarnhau eu bod yn gymwys a'u bod yn gweithio o fewn terfynau eu cymhwysedd. Mae'n rhaid i'r cymhwysedd hwn gael ei ailasesu fel rhan o'r broses arfarnu flynyddol.
 - bod unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau a geir o fewn y prosesau gweinyddu, cofnodi, adolygu a storio meddyginiaethau yn cael eu cofnodi ac yr adroddir arnynt yn unol â'r polisi a'r weithdrefn sy'n bodoli'n lleol ar gyfer digwyddiadau. Mae'n rhaid i'r bwrdd neu'r ymddiriedolaeth iechyd benderfynu ar y ddewis broses ar gyfer uwchgyfeirio digwyddiadau o'r fath a chyfleu'r broses honno. Dylid ymchwilio i achosion gwallau i'w gwneud yn bosibl dysgu o'r digwyddiad, gan felly leihau i'r eithaf y risg y gallai gwall tebyg ddigwydd yn y dyfodol.
- creu pecyn addysg e-ddysgu cysylltiedig ar gyfer yr holl staff sy'n gweinyddu, cofnodi, adolygu a storio meddyginiaethau ac mae hwn bellach yn cael ei ddefnyddio ar draws yr holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Mewn cydweithrediad â Learning@NHSWales bydd hwn yn cael ei symud i e-blatfform erbyn mis Ionawr 2016.
- cyflwyno hysbysiad diogelwch cleifion i'r lleoliad GIG yn nodi'r gofynion i'w hateb i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel mewn oergelloedd.

- Illunio hysbysiad diogelwch cleifion pellach ynghylch storio meddyginiaethau mewn cypyrddau ar wardiau ysbytai ac mewn clinigau – mae'r hysbysiad hwn wrthi'n cael ei gwblhau a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan.
- cynnal chwiliad llenyddiaeth ar effeithiolrwydd y defnydd o dabardau a pharthau coch i leihau nifer yr achosion o dorri ar draws staff wrth iddynt gynnal rowndiau meddyginiaeth. Roedd canlyniad yr adolygiad o dystiolaeth yn amhendant o ran yr effaith ar leihau'r achosion o dorri ar draws a'r effaith ganlyniadol ar wallau wrth weinyddu meddyginiaethau. Roedd casgliad yr adolygiad yn cyd-fynd â'r canfyddiadau mewn erthygl a gyhoeddwyd yn ystod yr amser hwn⁶. Canfu tystiolaeth o'r archwiliadau dirybudd ddefnydd anghyson o dabardau coch a hefyd safbwyntiau cymysg o ran pa un a oeddent o gymorth ynteu'n rhwystr yn ystod rowndiau meddyginiaeth. Yng ngoleuni'r canfyddiadau o lenyddiaeth nid oedd y defnydd o dabardau yn unig yn cael ei gefnogi gan y grŵp. Fodd bynnag, crëwyd argraff ar y grŵp gan y gwaith sy'n cael ei wneud yn BIP Hywel Dda o ran cyflwyno dull parth coch, system gyfan (gan gynnwys defnyddio tabardau) i wella diogelwch o ran gweinyddu meddyginiaethau. Cafodd y prosiect ei roi ar y rhestr fer yng Ngwobrau'r GIG eleni. Wrth i hyn gael ei sefydlu a'i werthuso bydd y canfyddiadau'n cael eu hystyried gan y grŵp gweinyddu, cofnodi, adolygu a storio meddyginiaethau i benderfynu a ddylid mabwysiadu'r dull hwn ledled Cymru.
- Mae fframwaith wedi cael ei ddatblygu sy'n safoni'r rhan a chwaraeir gan weithwyr cymorth gofal iechyd yn y prosesau sy'n rhan o reoli meddyginiaethau. Canfu'r archwiliadau dirybudd mai amrywiol yw'r arferion ledled Cymru. Bydd y fframwaith yn sicrhau mai dim ond gweithwyr cymorth gofal iechyd sydd wedi cael hyfforddiant priodol, ac sy'n meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau cywir, sy'n gallu rhoi cymorth gyda meddyginiaeth a'r tasgau cysylltiedig. Bydd hyn yn sicrhau bod arfer yn gadarn, yn ddiogel ac o safon gyfartal ledled Cymru. Bwriedir dechrau cyflwyno'r fframwaith bob yn dipyn ledled Cymru o fis Hydref 2015.

Gwelliannau mwy hirdymor o ran rheoli meddyginiaethau

Mae'r Grŵp Llywio o'r farn bod yn rhaid mai sefydlu un system gyfrifiadurol electronig ar gyfer y broses rheoli meddyginiaethau yw'r ffordd ymlaen. Mae'n ystyried y byddai hyn o fudd enfawr i'r gwaith o reoli meddyginiaethau o ran rheoli stociau, cymorth i reoli meddyginiaethau a gwella diogelwch cleifion. Byddai'n darparu cronfa ddata ar gyfer rheoli llyfrau fformwlâu, cyswllt unigol â manylion cleifion, byddai'n gwella'r modd y caiff gwybodaeth am feddyginiaethau ar gyfer

⁶ <http://qualitysafety.bmj.com/content/23/5.toc>

cleifion ei rhannu o fewn ac ar draws byrddau iechyd ac o fewn timau gofal sylfaenol, a byddai hefyd yn gwella'r modd y rheolir gwybodaeth am feddyginiaethau a ddefnyddir ar lefel cleifion gan gynnwys gwallau rhagnodi, gwallau gweinyddu ac unrhyw ddosau a gollwyd.

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn datblygu achos busnes i ddechrau gweithredu system fferylliaeth ac e-ragnodi mewn ysbytai ledled Cymru gyfan yn 2016-17

Argymhelliad 2

Mae'r Grŵp Llywio'n cefnogi'r camau i weithredu systemau electronig ar gyfer rheoli a gweinyddu meddyginiaethau yn gryf ac yn cynghori y dylid cwblhau achos busnes cyn gynted â phosibl.

Hyfforddiant a chymorth i fferyllwyr a chlinigwyr

Ym mis Gorffennaf 2014 cafodd yr holl fferyllwyr a thechnegwyr cofrestredig sy'n gweithio yn y sector a reolir, sy'n cynnwys fferyllwyr a gyflogir gan ysbytai, byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, eu gwahodd i gwblhau adnodd e-ddysgu ar-lein ar broffesiynoldeb ac i ddod i sesiwn "dysgu yn y gweithle" wedi'i hwyluso ar godi pryderon – cwblhaodd dros 90% yr adnodd ar-lein a daeth 98% i un o 83 o gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Cafodd rhaglen wedi'i haddasu o weithdai ei chyflwyno fesul tipyn ar gyfer fferyllwyr cymunedol yn haf 2015, gan dargedu fferyllfeydd sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer cartrefi gofal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i 15 o gartrefi gofal a'r fferyllfa sy'n eu cyflenwi i osod system ddigidol sy'n tracio, yn cofnodi ac yn archwilio'r broses o gyflenwi meddyginiaeth o'r adeg y mae'n gadael y fferyllfa i'r adeg y caiff ei rhoi i glaf. Bydd hwn yn adnodd pwerus i fonitro'r defnydd mewn cartrefi gofal o feddyginiaethau sy'n achos pryder, sy'n cynnwys tawelyddion a meddyginiaethau gwrthficrobaidd. Mae gwerthusiad o'r system yn mynd rhagddo a bydd yn penderfynu a ddylai'r dechnoleg gael ei gosod fel mater o drefn mewn cartrefi gofal fel rhan o fanyleb diogelwch meddyginiaethau.

Cyhoeddodd Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan *Polypharmacy: guidance for prescribing*⁷ ym mis Gorffennaf 2014 i roi cymorth i glinigwyr, fferyllwyr a nyrsys o ran rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ar gyfer pobl oedrannus.

Cyhoeddodd Canolfan Adnoddau Meddyginiaethau Cymru astudiaeth achos ar ddefnyddio meddyginiaethau tawelyddol mewn pobl hŷn⁸ ym mis Ebrill 2015 ac wedi hynny cyhoeddodd fwletin ar yr un pwnc ym mis Mehefin 2015 i fynd i'r afael â phryderon penodol ynghylch rhagnodi tawelyddion. Cwblhaodd dros 500 o feddygon teulu'r astudiaeth achos ar-lein.

⁷ <http://www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/Polypharmacy%20-%20Guidance%20for%20Prescribing%20in%20Frail%20Adults.pdf>

⁸ <http://www.wemerec.org/Documents/Bulletins/SedativeBulletinOnline.pdf>

Gofal dementia

Roedd llawer o'r argymhellion ar gyfer BIPABM yn ymwneud â hyfforddi staff i ofalu am bobl â dementia. Fodd bynnag, mater cymdeithasol yw mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan ddementia ac mae'n dwyn goblygiadau i'r holl staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau sy'n ymdrin â'r cyhoedd. Cymerodd Llywodraeth Cymru y cam cyntaf i safoni addysg a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth trwy gyhoeddi cyngor ar gyfer y GIG sy'n ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf 50% o'r staff yn y GIG sy'n cael cyswllt o ddydd i ddydd â chleifion wedi cael lefel briodol o hyfforddiant erbyn mis Ebrill 2016. Nid oedd yr arweiniad hwn yn benodol o ran yr hyn y dylai gwahanol grwpiau o staff neu staff sy'n gweithio mewn gwahanol wasanaethau ei gael fel isafswm ac ar hyn o bryd gadewir i sefydliadau darparwyr benderfynu ar hyn yn lleol. Ar draws GIG Cymru mae mathau amrywiol o hyfforddiant a gwybodaeth codi ymwybyddiaeth ar gael i'r sefydliadau eu defnyddio.

Argymhelliad 3

Er mwyn sicrhau cysondeb mae'r Grŵp Llywio'n argymhell y dylid datblygu fframwaith sy'n nodi'r gofynion ar gyfer gwahanol lefelau o hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol grwpiau o staff ac ar gyfer staff sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd gwasanaeth.

Gweithio tuag at system electronig o ran gwybodaeth ar gyfer cleifion

Roedd yn amlwg o ganfyddiadau'r archwiliadau dirybudd ac o'r trafodaethau a gawsom gyda staff rheng-flaen, yn enwedig staff nyrsio, a oedd yn atgyfnerthu hynny, bod angen mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â chofnodi gwybodaeth am gleifion ar bapur – gyda newid i systemau electronig.

Roedd canfyddiadau'r ymweliadau dirybudd yn cynnwys nifer o faterion a gododd dro ar ôl tro mewn perthynas â chadw cofnodion nyrsio ac fe wnaeth y Grŵp Llywio Ymddiried mewn Gofal adnabod hwn fel maes ar gyfer gwella. Gofynnwyd felly i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru arwain gwaith i foderneiddio trefniadau cadw cofnodion nyrsio i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y diben, gan leihau swm y ddogfennaeth sy'n cael ei chwblhau gan y GIG a'r achosion o ddyblygu dogfennaeth. Mae hwn yn brosiect ar raddfa fawr sy'n galw am ddull graddol gyda'r nod o wella'r modd y rheolir ansawdd y gofal ar gyfer cleifion, yn ogystal â gwella'r amser gweinyddol a dreulir gan staff y GIG. Yn y cam cyntaf:

- mae'r ddogfennaeth bresennol wedi cael ei hadolygu ac mae set o ddogfennau nyrsio craidd wedi cael ei chynhyrchu – mae'r rhain yn cynnwys

derbyn cleifion, eu hasesu ac asesu risgiau, cynllunio gofal a rhyddhau cleifion

- mae'r adolygiad wedi dilyn siwrne'r claf o ofal heb ei drefnu drwodd i'r ward, allan i mewn i'r gymuned, gan gynnwys cysylltu â gofal cymdeithasol, ac yn ôl i gael ei dderbyn drachefn.
- mae'r prosiect hefyd yn sefydlu prosesau llywodraethu i gymeradwyo, rhestru a monitro dogfennau nyrsio cenedlaethol.
- bydd arfer gorau'n cael ei gytuno a'i rannu ledled Cymru.
- bydd unrhyw ddogfennau nad oes mo'u hangen mwyach yn cael eu tynnu allan o'r system.
- bydd prosiect peilot bach yn cael ei gynnal ar y dull electronig a fydd yn cael ei ddefnyddio i gasglu set o wybodaeth nyrsio ddiffiniedig ar adeg darparu'r gofal, a fydd yn cael ei gwerthuso i wneud argymhellion ynghylch y camau nesaf.

Argymhelliad 4

Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gydag ymgysylltiad clinigol cryf a chael ei oruchwylio gan y *Bwrdd Rheoli Gwybodaeth Cenedlaethol (NIMB)*.

Gwella'r amgylchedd i bobl hŷn fregus

O ganlyniad i'r archwiliadau dirybudd adnabu'r Grŵp faterion cyffredin a allai achosi rhwystrau ac anawsterau i staff o ran darparu gofal sy'n gyson yn dda o ganlyniad i ffactorau amgylcheddol ac amgylchoedd wardiau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb trwy gyhoeddi arweiniad ar gyfer y GIG⁹ sy'n cynorthwyo gyda chynigion ar gyfer adeiladau newydd a gwaith rheolaidd i adnewyddu amgylcheddau wardiau er mwyn rhoi cymorth i ddarparu gofal yn y ffordd orau posibl a darparu amgylcheddau sy'n addas ar gyfer pobl â dementia.

Mae'n rhaid i sefydliadau'r GIG ddilyn safonau gofynnol sy'n cynnwys ystyried pethau megis:-

- arwyddion - arwyddion darluniadol clir, mawr ar gyfer toiledau, ystafelloedd bwyta a chyfleusterau bathio a.y.b.
 - ysgrifen fawr ar gyfer cyfarwyddiadau i leoliadau penodol o fewn yr ysbyty; dylid ystyried arwyddion darluniadol
- dylid dylunio lloiau sydd 'heb fod yn sgleiniog / heb fod yn adlewyrchol' ac sy'n cynnwys un lliw i atal ofn symudiadau ac i beidio ag achosi problemau i bobl â nam ar eu golwg

⁹ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/WHC-2015-012%20-%20English%20Version.pdf>

- dylai wynebau clochau fod yn fawr ac yn ddelfrydol dylai'r cloc ddangos y diwrnod a'r dyddiad hefyd
- ar gyfer unedau dementia ac unedau pobl hŷn dylai fframiau / blychau cofio fod ar gael ar bwys ystafelloedd sengl i helpu pobl i wybod ble y maent ac i ddod o hyd i'w hystafelloedd yn hawdd

Mae'r arweiniad eisoes yn cael ei roi ar waith gan yr holl fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Cafodd y grŵp ei daro hefyd gan bwysigrwydd sylw amserol i waith cynnal a chadw o ran cyfrannu i ofal o ansawdd da ar gyfer cleifion.

Mae rhai o'r dyraniadau cyllid cyfalaf dewisol ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015/16 yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r materion a godwyd mewn perthynas â seilwaith yn ystod yr ymweliadau dirybudd. Mae enghreifftiau'n cynnwys:-

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi gwneud gwelliannau i Ward 20 yn Ysbyty Tywysoges Cymru i adnewyddu'r system galw nyrsys a gosod goleuadau newydd, ac mae cynlluniau i brynu dodrefn newydd, creu ystafelloedd gwlyb yn lle bathau a gosod lloriau newydd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cyllido ystod o welliannau gan gynnwys gwelliannau i gawodydd, toiledau a chyfleusterau iechydol; gosod basnau golchi dwylo clinigol newydd; uwchraddio ystafelloedd ystreulio; uwchraddio ceginau a gwelliannau i loriau mewn ardaloedd clinigol ar draws safleoedd ysbytai cyffredinol dosbarth.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi prynu systemau larwm / galw nyrsys ar gyfer safleoedd dau ysbyty cymunedol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gwella lloriau ystafelloedd ymolchi / toiledau yn Uned Iorwerth Jones, ac wedi peintio ac addurno'r ardaloedd cymunol gan gynnwys coridorau ac ystafelloedd dydd. Mae'r rhaglen adnewyddu ystafelloedd ymolchi ar wardiau wedi ailddechrau yn Ysbyty Athrofaol Cymru i roi sylw i breifatrwydd ac urddas, anabledd a nam ar y golwg. Mae cyllid pellach wedi cael ei adnabod i barhau â'r rhaglen adnewyddu ystafelloedd ymolchi.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi trefnu bod cyllid ar gael i adnewyddu Ward Bryngolau yn Ysbyty'r Tywysog Phillip.

Mae Bwrdd Iechyd addysgu Powys wedi cyllido gwaith ar Ganolfan Adnoddau Iechyd Meddwl The Larches yn Ysbyty Ystradgynlais. Mae rhaglen o waith yn cael ei datblygu i wella arwyddion ar gyfer drysau toiledau, ac i newid lliwiau drysau toiledau, seddi toiled a chanllawiau cydio o fewn toiledau fel eu bod yn rhai â lliwiau cyferbyniol ar draws y safle.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn trefnu bod cyllid ar gael i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch a mynediad at gypyrddau fferyllfeydd yn ogystal â mynd i'r afael â materion penodol ar ddwy ward yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg mewn perthynas â threfniadau cyffredinol ar gyfer storio offer a defnyddiau traul.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre wedi gwneud cynnydd da gyda'r argymhellion gan gynnwys gosod cloeon digidol mewn ardaloedd allweddol megis ystafelloedd triniaeth, gosod cloeon magnetig i reoli diogelwch mewn ardaloedd allweddol ar y safle, gosod peiriannau dosbarthu cyffuriau, gosod oergelloedd amrywiol i gynnal tymheredd hylifau ar y lefelau gofynnol ac adleoli cwpwrdd cyffuriau a reolir fel a argymhellwyd yn yr adroddiad.

Argymhelliad 5

Mae'n rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod eu rhaglenni adnewyddu'n parhau yn unol â'r arweiniad a roddwyd ac yn mynd i'r afael yn llawn â'r canfyddiadau yn sgîl yr archwiliadau dirybudd ar gyfer eu priod sefydliadau. Mae'n rhaid i Fyrddau fonitro'r cynnydd ac adrodd arno.

Arwain trwy esiampl a chydweithio

Mae arweinyddiaeth dda'n cael effaith gadarnhaol ar dimau unigol ac o ganlyniad ar y gwasanaethau a ddarperir. Dyma oedd y neges glir a gafwyd trwy'r ymweliadau dirybudd a chan ein hadolygwyr rheng-flaen. Dangoswyd mai gweithio'n effeithiol fel tîm sy'n dwyn y canlyniadau gorau i gleifion. Rhannwyd enghreifftiau a oedd yn dangos rolau arloesol yn cael eu cyflwyno i ddiwallu anghenion newidiol gwasanaethau, yn ogystal â rhwystredigaethau lle'r oedd unigolion yn teimlo bod polisïau'n effeithio ar y modd y darperir gwasanaethau o ddydd i ddydd e.e. y broses recriwtio staff ac elfennau o bolisi salwch Cymru gyfan.

Clywsom beth tystiolaeth o sefyllfaoedd lle'r oedd newidiadau'n cael eu gwneud i systemau ac arferion gweithio a bod yr effeithiau ymarferol yn golygu bod staff yn mabwysiadu 'datrysiadau osgoi' gan fod y newidiadau'n anodd i'w gwneud. Mae'n bwysig bod staff yn chwarae rhan lawn yn y broses o ddylunio newidiadau ac yn wir eu bod yn ganolog i'r broses o wella ansawdd yn barhaus. Mae angen i'r holl newidiadau gael eu harfarnu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol er enghraifft cyflwyno amseroedd bwyd gwarchoddedig sydd mewn rhai achosion wedi golygu nad yw teuluoedd a gofalwyr ar wardiau yn ystod amser bwyd i helpu eu hanwyliaid i fwyta. Mae angen i bob sefydliad adolygu enghreifftiau o'r fath a sicrhau bod bwriad gwreiddiol mentrau fel y rhain yn cael ei gyflawni, gan ddwyn y canlyniadau gorau i gleifion ac mae gan staff gyfrifoldeb i ymegnio i wella ansawdd.

Dim ond trwy arweinyddiaeth leol gref a thrwy weithio'n dda fel tîm y gellir mynd i'r afael â'r materion hyn.

Cyfrifoldeb byrddau

Mae cyfrifoldeb aelodau o fyrddau wedi bod yn rhan o drafodaethau rheolaidd yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywio. Mae gan y bwrdd ddyletswydd i sicrhau ei fod yn llwyr ymwybodol o'r canlyniadau sy'n ofynnol ac mae'n rhaid iddo ffurfio barn o ran pa mor dda y mae'r canlyniadau hynny wedi cael eu cyflawni. Mae'n rhaid i aelodau o fyrddau allu rhoi sicrwydd bod cleifion yn cael gofal a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Lle na ellir rhoi'r sicrwydd hwn mae'n rhaid i'r Bwrdd fod yn glir o ran yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol.

Mae arweinyddiaeth gref yn hanfodol ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am arweinyddiaeth effeithiol ar lefel bwrdd sy'n dryloyw ac yn gynhwysol. Mae'n bwysig bod byrddau'n cymryd perchnogaeth fel bod gan staff hyder a chred y bydd uwch reolwyr yn cymryd materion o ddifrif ac yn ymdrin â hwy'n alluog pan fyddant yn cael eu codi gyda hwy. Roedd y Grŵp Llywio'n teimlo'n gryf bod yn rhaid i bob aelod o'r bwrdd chwarae rhan lawn a gweithredol yn arweinyddiaeth y bwrdd iechyd.

Mae'n rhaid darparu hyfforddiant digonol ar gyfer aelodau o'r byrddau, gan gynnwys aelodau anweithredol ac annibynnol, i sicrhau eu bod yn deall y disgwyliadau a osodir arnynt, a'r lefel uchel o graffu a her y mae'n rhaid ei disgwyl ar y lefel honno. Mae'n rhaid i fyrddau sicrhau hefyd eu bod yn ymgysylltu'n llawn â'r poblogaethau y maent yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

Mae'r Grŵp Llywio'n croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiweddarau'r rhaglen sefydlu a hyfforddiant ar gyfer aelodau annibynnol o fyrddau sydd â rôl allweddol o ran sicrhau craffu effeithiol ar lefel y bwrdd a bod swyddogion gweithredol yn cael eu dwyn i gyfrif. Clywodd y Grŵp Llywio hefyd fod Academi Wales yn gweithio ar ddiweddariad i'r Arweiniad Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau ac maent yn parhau i weithio gyda byrddau ac ymddiriedolaethau unigol ar weithgarwch dysgu a datblygu byrddau.

Gwerthoedd ac ymddygiadau

Mae angen arweinyddiaeth dda ar bob lefel o fewn y GIG, ar lefelau clinigol, rheoli a gweithredol i gefnogi amgylchedd diogel ar gyfer cleifion lle mae gofal o ansawdd yn flaenllaw. Mae hyn yn galw am ffocws ar ddiwylliant ac ymddygiad ar bob lefel ac am rannu arfer gorau ar draws sefydliadau.

Cafodd y Grŵp Llywio'i wneud yn ymwybodol o'r fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad a ddatblygwyd gan BIPABM trwy ymgysylltu â chleifion a staff, a sut y mae hwn yn cael ei sefydlu fel rhan o arfer a phrosesau rheoli beunyddiol yn y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn gyfrwng trwy arweinyddiaeth dda i sicrhau bod gwerthoedd yn ganolog i ddiwylliant BIPABM. Croesewir y gwaith hwn gan ei fod yn hybu'r egwyddorion cyffredin trosfwaol ar gyfer y GIG yng Nghymru, a ddatblygwyd mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Cyflogwyr y GIG a chynrychiolwyr Staff. Bydd yr egwyddorion hyn yn disodli gwerthoedd presennol GIG Cymru a gyhoeddwyd yn 2009 ac yn ategu'r gwaith sy'n mynd rhagddo ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd i gwblhau a/neu ddiweddarau eu datganiadau lleol ar werthoedd. Roedd y Grŵp Llywio'n cefnogi'r datblygiad pwysig hwn.

Pwysigrwydd teuluoedd a gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr a'r rôl bwysig y gallant ei chyflawni fel rhan o'r tîm ehangach wedi cael ei hadnabod fel thema gyffredin gyda llawer o enghreifftiau ardderchog o'r gwerth ychwanegol y maent yn ei gynnig. Fel gydag enghreifftiau eraill a nodir yma mae cyfle gwirioneddol i rannu arfer da ledled Cymru. Mae cynlluniau megis y Gwasanaeth Holi a Siarad mewn Cartrefi Gofal¹⁰ (CHAAAT), sy'n defnyddio Cymrodoriaeth Ymddeol y GIG, ac sy'n rhedeg yng Ngwent gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, yn enghraifft dda lle mae pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn gallu rhannu eu profiadau.

Mae ein dull gofal iechyd darbodus¹¹ yn atgyfnerthu pwysigrwydd cydweithio rhwng y cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol, gyda'r claf yn gwbl ganolog i bopeth a wnawn. Mae llawer o enghreifftiau lle mae'r dull hwn yn cael ei ddatblygu ledled Cymru, lle mae egwyddorion gofal iechyd darbodus yn tanategu'r gwasanaethau a ddarperir. Mae Llanelli¹² yn enghraifft dda lle mae gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion yn cael eu trawsnewid, lle mae'r rhai sy'n darparu ac yn defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu grymuso i wneud newidiadau sydd o fudd i'r defnyddiwr gwasanaethau/claf.

Bydd y cynllun iechyd a gofal darbodus sy'n cael ei ddatblygu'n amlgyr newid y mae ei angen i wneud i ofal iechyd darbodus ddigwydd. Hefyd, mae Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol, ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, wrthi'n llunio

¹⁰ https://www.youtube.com/watch?v=OKiQU8-S_8I&feature=youtu.be

¹¹ <http://www.prudenthealthcare.org.uk/cy/>

¹² <http://www.prudenthealthcare.org.uk/wp-content/uploads/2014/09/Transforming-adult-social-care-Llanelli.pdf>

menter Choosing Wisely¹³ ar gyfer Cymru, sy'n ceisio mynd i'r afael â gor-driniaeth, trwy gynnwys cleifion yn llawer mwy yn y broses o ddylunio a phenderfynu ar eu hiechyd a'u gofal eu hunain.

Mae gofal iechyd darbodus yn ceisio sicrhau bod iechyd a gofal yn cael eu dylunio yn y fath fodd fel eu bod yn diwallu anghenion pobl fregus a hŷn yn well.

Argymhelliad 6

Dylai'r holl sefydliadau sefydlu dull cydgynhyrchu¹⁴, gan gydweithio'n agos gydag unigolion, teuluoedd, gofawyr a gwirfoddolwyr i sicrhau bod y cymorth cywir, yn y lle cywir, yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio'r sgiliau sy'n diwallu lefel yr angen yn y ffordd orau, gan ddilyn dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Casgliad

Mae'n dda gan y Grŵp Llywio adrodd ar y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed ledled Cymru mewn ymateb i'r adroddiad Ymddiried mewn Gofal. Adnabu aelodau'r grŵp yn gynnar fod themâu i'w cael a oedd yn codi dro ar ôl tro o ganfyddiadau'r ymweliadau dirybudd. Roedd y themâu hyn yn perthyn i dri maes allweddol yr oedd y Grŵp yn teimlo bod angen gweithredu ynddynt ar lefel Cymru gyfan – sicrwydd, dysgu a gwella; seilwaith (amgylchedd, gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth) ac arweinyddiaeth a gweithio fel tîm. Mae peth wmbredd wedi cael ei wneud dros y deuddeng mis diwethaf gan ganolbwyntio ar y meysydd hyn, fel a ddangosir yn yr adroddiad hwn. Mae cryn dipyn wedi cael ei gyflawni ond mae'n rhaid cynnal y momentwm.

Mae'r gwaith a oruchwyliwyd gan y Grŵp Llywio'n amcanu at sicrhau bod cleifion a'u gofawyr yn bartneriaid llawn o ran gwneud yr hyn sy'n iawn i unigolion ac sy'n cydfynd yn agos ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Gyda hyn mewn cof mae disgwyl i'r GIG gynnal momentwm y gwelliannau a welwyd eisoes o ganlyniad i'r gwersi yn sgîl yr archwiliadau dirybudd a'r gwaith ar lefel Cymru gyfan. Lle mae angen gwaith ychwanegol i gefnogi hyn ymhellach mae'r Grŵp Llywio wedi gwneud nifer fach o argymhellion (a gaiff eu crynhoi yn atodiad 2).

¹³ http://www.aomrc.org.uk/doc_download/9830-choosing-wisely.html

¹⁴ <http://www.prudenthealthcare.org.uk/cydgynhyrchu/>

Grŵp Llywio Ymddiried mewn Gofal

Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth

1. Mae'r Grŵp Tasglu ar yr Adroddiad Ymddiried mewn Gofal wedi cael ei sefydlu i gyfarwyddo a llywio'r broses o weithredu'r argymhellion ar gyfer gwella ansawdd a diogelwch cleifion oedrannus ar draws yr holl Fyrddau Iechyd/Ymddiriedolaeth Felindre yng Nghymru, ond yn bennaf yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Bydd y grŵp hefyd yn goruchwyllo'r broses o weithredu'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.
2. Mae'r cyfrifoldebau penodol yn cynnwys:-
 - goruchwyllo'r broses o weithredu'r holl argymhellion i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n llawn.
 - sicrhau y cymerir camau gweithredu i fynd i'r afael â'r pedwar prif faes blaenoriaeth lle'r oedd gofal ar gyfer cleifion oedrannus yn cael ei beryglu. Bydd hyn yng nghyd-destun archwiliadau dirybudd a gaiff eu goruchwyllo gan Syr Ian Carruthers a'r Athro June Andrews:
 - o ran rhoi meddyginiaeth i gleifion;
 - o ran sicrhau bod cleifion yn cael eu hydradu;
 - o ran gorddefnydd o dawelyddion yn ystod y nos;
 - o ran gofal ymataledd sylfaenol.
 - darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd ar gyfer y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sicrwydd bod ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir yn cyrraedd y safonau gofynnol.
 - datblygu cynigion arloesol i ddwyn newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol i ffyrdd o weithio a threfniadau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth o fewn y GIG a chyda defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd.
 - goruchwyllo'r broses o weithredu agweddau perthnasol ar adolygiad Keith Evans o'r modd yr ymdrinnir â phryderon a chwynion o fewn y GIG.
3. Bydd y Grŵp yn cwrdd yn fisol, ond bydd disgwyl iddo weithio'n rhithwir y tu allan i'r cyfarfodydd hyn i sicrhau ei fod yn cynnal trosolwg ac yn gwneud cynnydd o fewn y terfynau amser. Bydd cyngor proffesiynol ac arbenigol yn cael ei geisio gan Grŵp Cyfeirio ehangach.
4. Aelodau'r Grŵp Llywio yw:

- Ruth Hussey – Cyd-gadeirydd
- Jean White – Cyd-gadeirydd
- Albert Heaney
- Bernadette Fuge
- Nick Budd
- Chris Jones
- Sarah Watkins
- Roger Walker

Hefyd yn bresennol bydd:

- Jan Davies
- Jan Firby (cymorth ysgrifenyddol)
- Mandy Stone (cymorth ysgrifenyddol)

Gan ddibynnu ar flaenoriaethau'r agenda gall fod yn ofynnol i eraill fod yn bresennol mewn cyfarfodydd penodol.

5. Disgwylir i'r Grŵp weithredu tan o leiaf fis Mehefin 2015.

Crynodeb o Argymhellion y Grŵp Llywio

Argymhelliad 1

Dylai holl sefydliadau'r GIG gyfrannu i waith i ddatblygu'r pecyn cymorth Archwiliadau Ansawdd ac adolygiadau gan gymheiriaid ymhellach a chynnwys defnydd o'r rhain yn eu systemau gwella a sicrhau ansawdd.

Argymhelliad 2

Mae'r Grŵp Llywio'n cefnogi'r camau i weithredu systemau electronig ar gyfer rheoli a gweinyddu meddyginiaethau yn gryf ac yn cyngori y dylid cwblhau achos busnes cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 3

Er mwyn sicrhau cysondeb mae'r Grŵp Llywio'n argymhell y dylid datblygu fframwaith sy'n nodi'r gofynion ar gyfer gwahanol lefelau o hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol grwpiau o staff ac ar gyfer staff sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd gwasanaeth.

Argymhelliad 4

Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gydag ymgysylltiad clinigol cryf a chael ei oruchwylio gan y Bwrdd Rheoli Gwybodaeth Cenedlaethol (NIMB).

Argymhelliad 5

Mae'n rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod eu rhaglenni adnewyddu'n parhau yn unol â'r arweiniad a roddwyd ac yn mynd i'r afael yn llawn â'r canfyddiadau yn sgîl yr archwiliadau dirybudd ar gyfer eu priod sefydliadau. Mae'n rhaid i Fyrddau fonitro'r cynnydd ac adrodd arno.

Argymhelliad 6

Dylai'r holl sefydliadau sefydlu dull [cydgynhyrchu](#) gan gydweithio'n agos gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr a gwirfoddolwyr i sicrhau bod y cymorth cywir, yn y lle cywir, yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio'r sgiliau sy'n diwallu lefel yr angen yn y ffordd orau, gan ddilyn dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth.